




## Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol sy'n seiliedig ar 2018, Cymru (diwygiedig)

4 Awst 2020  
SFR 14/2020(R)

Mae'r amcanestyniadau hyn yn diwygio'r rhai a gyhoeddwyd yn wreiddiol ar 27 Chwefror 2020. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y diwygiadau yn yr adran [Am yr amcanestyniadau hyn](#).

### Siart 1: Newid canrannol yn y prif amcanestyniadau poblogaeth yn ôl awdurdod lleol, 2018 i 2028



Yn ystod y cyfnod 2018 i 2028:

- amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu yn y mwyafrif o awdurodau lleol
- amcanestynnir y bydd y cynnydd canrannol mwyaf yn y boblogaeth yng Nghasnewydd (i fyny 7.2%), Bro Morgannwg (i fyny 6.0%) ac ym Mhen-y-bont ar Ogwr (i fyny 4.6%)

### Am y datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno canlyniadau amcanestyniadau poblogaeth diwygiedig sy'n seiliedig ar 2018 ar gyfer awdurdodau lleol Cymru am y cyfnod 25 mlynedd o 2018 i 2043.

Maent yn seiliedig ar [amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn](#) ar gyfer 2018, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

Mae'r amcanestyniadau poblogaeth yn rhoi amcangyfrifon o faint poblogaeth yn y dyfodol ac yn seiliedig ar ragdybiaethau am enedigaethau, marwolaethau a mudo. Mae'r tybiaethau'n seiliedig ar dueddiadau yn y blynyddoedd cynt fel arfer.

### Yn y datganiad hwn

Prif amcanestyniad	2
Amrywiolion	6
Cymariaethau	7
Atodiad	10
Nodiadau	15

## Am yr amcanestyniadau hyn

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn cyhoeddi amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol ar gyfer y Deyrnas Unedig a'r gwledydd o fewn y Deyrnas Unedig. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol ar gyfer Cymru, sy'n seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol yr ONS. Mae'r amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol yn cynnwys amcanestyniadau ar gyfer awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol.

Ddydd Llun 18 Mai 2020, cyhoeddodd yr [ONS nodyn ar eu gwefan i roi gwybod i ddefnyddwyr eu bod wedi darganfod gwall a oedd yn effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol sy'n seiliedig ar 2018](#). Roedd y gwall wedi ei achosi gan brosesu mudo rhwng Cymru a Lloegr yn anghywir, gan arwain at amcanestyniad poblogaeth canol-2028 oddeutu 65,000 yn rhy isel yng Nghymru, ac amcanestyniad poblogaeth 65,000 yn rhy uchel yn Lloegr.

Yn dilyn ymgynghori gyda'n grŵp arbenigol am y goblygiadau i'n cynnyrch ystadegol a oedd yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol sy'n seiliedig ar 2018, penderfynom ni dynnu'r amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol a'r amcanestyniadau aelwydydd sy'n seiliedig ar 2018 oddi ar ein gwefan.

Cyhoeddodd yr ONS amcanestyniadau wedi eu cywiro ar gyfer Cymru ddydd Iau 11 Mehefin. Mae'r amcanestyniadau awdurdodau lleol hyn yn seiliedig ar yr amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol sy'n seiliedig ar 2018 sydd wedi eu cywiro ar gyfer Cymru. Mae gwybodaeth bellach am y cywiriadau ar gael yn yr [Atodiad](#), yn ogystal â dadansoddiad o sut mae'r amcanestyniadau hyn sydd wedi eu cywiro yn cymharu â'r amcanestyniadau gwreiddiol.

## Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol sy'n seiliedig ar 2018

Mae'r 'prif' amcanestyniad yn seiliedig ar ragdybiaethau sydd yn adlewyrchu tueddiadau demograffig orau bryd hynny ynghylch ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo yn y dyfodol. Gellir ei ystyried yn amcanestyniad 'canolog'.

Mae dau amcanestyniad arall, neu 'amrywiolion', hefyd ar gael yn ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad. Maent yn seiliedig ar senarios eraill yn y dyfodol o ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo o'u cymharu â'r prif amcanestyniad. Mae'r amrywiolion yn cynnwys amrywiolyn 'poblogaeth uchel' (sy'n seiliedig ar ragdybiaethau ffrwythlondeb, disgwyliad oes a mudo uchel), ac amrywiolyn 'poblogaeth isel' (sy'n seiliedig ar ragdybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo isel). Mae'r rhain yn mynegi'r ansicrwydd ynghylch amcanestyniadau, ond nid ydynt yn cynrychioli uchafswm neu isafswm o dueddiadau demograffig yn y dyfodol.

Rydym hefyd yn cynllunio bod amrywiolion sy'n seiliedig ar dybiaethau mudo eraill ar gael yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys amrywiolyn yn seiliedig ar ddim mudo (h.y. dim mudo rhyngwladol na mewnol, dim ond newid naturiol yn y boblogaeth o ganlyniad i enedigaethau a marwolaethau), ac amrywiolyn yn seiliedig ar batrymau mudo 10 mlynedd (h.y. defnyddio 10 mlynedd o ddata ar gyfer mudo rhyngwladol a mudo mewnol, yn hytrach na 5 mlynedd o ddata).

Mae amcanestyniadau ar gael ar gyfer y cyfnod 25 mlynedd, o 2018 i 2043. Fodd bynnag, mae'r datganiad hwn yn canolbwyntio ar 10 mlynedd gyntaf y cyfnod amcanestyniadau gan fod

amcanestyniadau yn tueddu i ddod yn fwyfwy ansicr yn y tymor hir, gan y gall cymaint newid dros y cyfnod hwnnw.

Mae'n bwysig nodi nad rhagolygon ydy'r amcanestyniadau hyn, ac nid ydynt yn ceisio rhagweld effaith y gall polisiau'r llywodraeth yn y dyfodol, newid mewn amgylchiadau economaidd, na chwaith ffactorau eraill, fel pandemig y coronafeirws, eu cael ar dueddiadau demograffig.

Yn wahanol i'r amcanestyniadau gwreiddiol a gyhoeddwyd fis Chwefror, nid yw'r amcanestyniadau hyn bellach wedi eu cyfyngu ar yr amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol sy'n seiliedig ar 2018, a gyhoeddwyd gan yr ONS. Mae hyn yn debyg i'r dull o gyfrifo'r amcanestyniadau poblogaeth awdurdod lleol sy'n seiliedig ar 2014, ac amcanestyniadau cyn hynny. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adran [Cymariaethau ag amcanestyniadau poblogaeth awdurdod lleol sy'n seiliedig ar 2014](#).

Mae hyn yn golygu y dylai defnyddwyr barhau i ddefnyddio amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol yr ONS ar gyfer amcanestyniadau ar lefel Cymru, ac nid cyfanswm yr amcanestyniadau poblogaeth awdurdod lleol. Mae cymhariaeth o'r amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol ac amcanestyniadau poblogaeth awdurdod lleol ar gael yn yr [Atodiad](#).

### **Prif amcanestyniad**


Mae Siart 1 yn dangos yn ystod y cyfnod 2018 i 2028:

- amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu yn 18 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru
- amcanestynnir y bydd y cynnydd canrannol mwyaf yn y boblogaeth yng Nghasnewydd (i fyny 7.2%), Bro Morgannwg (i fyny 6.0%) ac ym Mhen-y-bont ar Ogwr (i fyny 4.6%)
- amcanestynnir i'r boblogaeth leihau mewn pedwar awdurdod lleol
- yr awdurdodau lleol yr amcanestynnir y bydd eu poblogaeth yn lleihau ydy Ceredigion (3.3%), Wrecsam (1.5%), Blaenau Gwent (0.7%) ac Ynys Môn (0.4%)

Mae'r tueddiadau ag amcanestynnir fan hyn yn adlewyrchu'r rhai a welwyd yn [amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn](#) yr ONS. Yr awdurdodau lleol sydd wedi gweld y cynnydd canrannol mwyaf yn yr amcangyfrifon poblogaeth rhwng 2014 a 2018 ydy Casnewydd, Bro Morgannwg a Chaerdydd. I'r gwrthwyneb, yr awdurdodau lleol sydd wedi gweld y lleihad mwyaf yn yr amcangyfrifon poblogaeth yn ystod yr un cyfnod ydy Ceredigion, Ynys Môn a Phowys.

Dros gyfnod llawn 25 mlynedd yr amcanestyniadau, hyd at 2043, amcanestynnir tuedd debyg – amcanestynnir cynnydd yn y boblogaeth yn yr un 18 awdurdod lleol, a lleihad yn yr un pedwar awdurdod lleol.

## Siart 2: Amcanestyniadau poblogaeth yn ôl awdurdod lleol, 2028




Mae Siart 2 yn dangos amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn 2028. Amcanestynnir y bydd Caerdydd yn parhau i fod â'r boblogaeth fwyaf o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru erbyn 2028, sef bron i 375,700 o bobl. Mae hyn dros 120,000 yn fwy o bobl na'r ail awdurdod lleol mwyaf, Abertawe, ac amcanestynnir y bydd yn cyfrif am bron i 12% o'r boblogaeth yng Nghymru.

Amcanestynnir y bydd y mwyafrif helaeth o awdurdodau lleol yng Nghymru â phoblogaeth o rhwng 100,000 a 200,000 erbyn 2028. Amcanestynnir y bydd y poblogaethau lleiaf yn parhau i fod ym Merthyr Tudful (tua 61,700), Blaenau Gwent (tua 69,200), Ynys Môn (tua 69,700), a Cheredigion (tua 70,600).

## Amcanestyniadau yn ôl oedran

Amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn parhau i heneiddio ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.

### Siart 3: Newid yn y prif amcanestyniad poblogaeth yn ôl awdurdod lleol ac oedran, 2018 i 2028



Yn ystod y cyfnod 2018 i 2028, ar gyfer plant a phobl ifanc 0 i 15 mlwydd oed:

- amcanestynnir y bydd pob awdurdod lleol, ac eithrio Casnewydd, Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot a Merthyr Tudful, yn gweld lleihad yn nifer y plant a phobl ifanc 0 i 15 oed
- amcanestynnir y bydd y lleihad canrannol mwyaf yn nifer y rhai 0 i 15 oed i'w gweld yn Wrecsam (i lawr 8.6%), Ceredigion a Sir Benfro (y ddau i lawr 7.9%)

Ar gyfer y boblogaeth o oedran gweithio rhwng 16 a 64 mlwydd oed:

- amcanestynnir y bydd lleihad ym mhob awdurdod lleol ac eithrio awdurdodau lleol trefol yn bennaf ar hyd coridor yr M4 yn ne Cymru (Casnewydd, Caerdydd, Abertawe, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr) ac yng Ngwynedd

- amcanestynnir y bydd y lleihad canrannol mwyaf yn nifer y rhai 16 i 64 oed i'w gweld mewn ardaloedd gwledig yn bennaf, sef Ceredigion (i lawr 8.6%), Powys (i lawr 5.5%) ac Ynys Môn (i lawr 4.5%)

Ar gyfer pobl 65 oed neu drosodd:

- amcanestynnir y bydd cynnydd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, gyda'r cynnydd mwyaf i'w gweld ym Mro Morgannwg (i fyny 20.5%), Sir Fynwy (i fyny 19.8%) a Sir Benfro (i fyny 18.8%)
- amcanestynnir y bydd nifer yr awdurdodau lleol ble mae dros chwarter o'r boblogaeth yn 65 oed neu drosodd yn dyblu o bedwar yn 2018, i wyth yn 2028
- amcanestynnir y bydd dros 30% o'r boblogaeth yn 65 oed neu drosodd yng Nghonwy (31.1%) ac ym Mhowys (31.0%) yn 2028

Ar gyfer pobl 75 oed neu drosodd:

- amcanestynnir y bydd cynnydd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, gyda'r cynnydd canrannol mwyaf i'w gweld yn Sir Fynwy (i fyny 34.8%), Sir y Fflint (i fyny 34.0%) a Sir Benfro (i fyny 33.1%)

## Cydrannau newid

Mae amcanestyniadau poblogaeth awdurdod lleol yn cynnwys y 'cydrannau newid' canlynol yn bennaf:


1. genedigaethau
2. marwolaethau
3. mudo rhyngwladol
4. mudo mewnol (h.y. mudo rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru a rhannau eraill y Deyrnas Unedig)

Mae newid naturiol, sef y gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a marwolaethau, yn negatif pan fydd mwy o farwolaethau na genedigaethau. Mae'n bositif pan fydd mwy o enedigaethau na marwolaethau.

Mudo net ydy'r gwahaniaeth rhwng nifer y bobl sy'n symud i ardal, a nifer y bobl sy'n symud o'r ardal. Mae'n negatif pan fydd mwy o bobl yn symud o'r ardal nag yn symud i'r ardal. Mae'n bositif pan fydd mwy o bobl yn symud i ardal nag yn symud o'r ardal.

Amcanestynnir y bydd mudo yn ychwanegu at faint y boblogaeth ar gyfer mwyafrif yr awdurdodau lleol yng Nghymru yn ystod y cyfnod 2018 i 2028, ac eithrio Wrecsam. Amcanestynnir hefyd y bydd newid naturiol yn negatif yn mwyafrif yr awdurdodau lleol (yn yr achosion hyn, mwy o farwolaethau na genedigaethau). Fodd bynnag, ar gyfer y mwyafrif o awdurdodau lleol, bydd mudo net positif yn uwch na'r newid naturiol negatif, gan arwain at gynnydd cyffredinol yn y boblogaeth.

## Siart 4: Newid yn y prif amcanestyniad poblogaeth yn ôl awdurdod lleol a chydran newid, 2018 i 2028



Ar gyfer yr awdurdodau lleol yr amcanestynnir y byddant yn gweld y cynnydd mwyaf yn y boblogaeth, mae hyn oherwydd mudo net positif yn bennaf, h.y. mwy o bobl yn symud i'r ardal nag yn symud o'r ardal. Mae Caerdydd yn eithriad - amcanestynnir y bydd newid naturiol positif, h.y. mwy o enedigaethau na marwolaethau, yn dylanwadu fwyaf ar gynnydd yn y boblogaeth yn yr awdurdod lleol hwnnw.

Ar gyfer yr awdurdodau lleol yr amcanestynnir y byddant yn gweld y boblogaeth yn lleihau, mae hyn oherwydd newid naturiol negatif yn bennaf, h.y. mwy o farwolaethau na genedigaethau. Wrecsam ydy'r unig awdurdod lleol yr amcanestynnir i'r newid naturiol a mudo net fod yn negatif yn y cyfnod 2018 i 2028.

Mae'r tabl canlynol yn dangos sut mae amcanestyniadau'r cydrannau newid yn amrywio yn ôl awdurdod lleol yn ystod y cyfnod 2018 i 2028.



**Tabl 1: Cydrannau newid amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol yn ôl awdurdod lleol, 2018 a 2028**

	Genedigaethau		Marwolaethau		Mudo net	
	2018-2019	2027-2028	2018-2019	2027-2028	2018-2019	2027-2028
Ynys Môn	690	640	900	950	170	280
Gwynedd	1,160	1,230	1,420	1,470	510	620
Conwy	1,030	980	1,610	1,730	810	1,000
Sir Ddinbych	950	900	1,250	1,370	460	580
Sir y Fflint	1,590	1,560	1,560	1,750	390	400
Wrecsam	1,480	1,370	1,490	1,600	-160	0
Powys	1,150	1,090	1,640	1,800	440	760
Ceredigion	570	500	810	870	-390	340
Sir Benfro	1,080	1,020	1,540	1,750	760	910
Sir Gaerfyrddin	1,810	1,720	2,480	2,620	1,140	1,280
Abertawe	2,440	2,490	2,680	2,790	1,000	1,200
Castell-nedd Port Talbot	1,470	1,430	1,720	1,790	540	720
Pen-y-bont ar Ogwr	1,520	1,450	1,690	1,870	950	980
Bro Morgannwg	1,350	1,360	1,380	1,540	850	840
Caerdydd	4,030	4,060	3,020	3,090	60	380
Rhondda Cynon Taf	2,610	2,570	2,650	2,820	720	750
Merthyr Tudful	700	650	650	690	150	160
Caerffili	1,950	1,870	1,880	2,070	220	270
Blaenau Gwent	750	690	900	930	100	190
Torfaen	990	960	1,060	1,140	330	360
Sir Fynwy	730	740	1,040	1,200	600	740
Casnewydd	1,960	1,930	1,550	1,630	820	640

Yn Nhabl 1, mae mudo rhyngwladol a mudo mewnol wedi eu cyfuno er mwyn rhoi cyfanswm mudo net.

Yn ystod y cyfnod 2018 i 2028:

- amcanestynnir y bydd nifer y genedigaethau yn gostwng yn mwyaf yr awdurdodau lleol, gyda'r gostyngiad canrannol mwyaf yng Ngheredigion (i lawr 12.3%)
- amcanestynnir y bydd nifer y genedigaethau yn cynyddu mewn pump awdurdod lleol: yng Ngwynedd, Abertawe, Sir Fynwy, Caerdydd a Bro Morgannwg
- amcanestynnir y bydd nifer y marwolaethau yn cynyddu ym mhob awdurdod lleol, gyda'r cynnydd canrannol mwyaf yn Sir Fynwy (i fyny 15.4%), Sir Benfro (i fyny 13.6%), a Sir y Fflint (i fyny 12.2%)
- mae hyn yn golygu yr amcanestynnir y bydd newid naturiol (y gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a nifer y marwolaethau) yn fwyfwy negyddol yn y mwyaf o awdurdodau lleol, ac amcanestynnir mai dim ond yng Ngwynedd y bydd lleihad yn y newid naturiol

- amcanestynnir y bydd mudo net cyffredinol yn bositif i bob awdurdodau lleol ar ddiwedd y cyfnod 10-mllynedd, ac eithrio Wrecsam (amcanestynnir iddo fod mymryn yn negatif)
- fodd bynnag, amcanestynnir y bydd cyfanswm mudo net yn fwyfwy positif ym mhob awdurdod lleol ac eithrio yng Nghasnewydd a Bro Morgannwg

## Mudo

Mae Tabl 2 yn dangos amcanestyniadau mudo rhyngwladol mewnol ac allanol, yn ogystal ag ar gyfer mudo mewnol, ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru yn ystod y cyfnod 2018 i 2028.

**Tabl 2: Amcanestyniadau mudo mewnol ac allanol ar gyfer mudo rhyngwladol a mudo mewnol, yn ôl awdurdod lleol, 2018 a 2028**

	Mudo rhyngwladol				Mudo mewnol			
	Mudo mewnol		Mudo allanol		Mudo mewnol		Mudo allanol	
	2018-19	2027-28	2018-19	2027-28	2018-19	2027-28	2018-19	2027-28
Ynys Môn	120	120	60	60	2,400	2,500	2,300	2,200
Gwynedd	1,130	1,130	490	490	5,700	5,900	5,800	5,900
Conwy	280	280	200	200	4,900	5,100	4,200	4,200
Sir Ddinbych	240	240	140	140	4,500	4,600	4,200	4,100
Sir y Fflint	540	540	390	390	5,100	5,100	4,800	4,900
Wrecsam	580	580	620	620	4,000	4,100	4,100	4,000
Powys	350	350	280	280	5,600	5,700	5,200	5,100
Ceredigion	620	620	390	390	5,200	5,500	5,800	5,400
Sir Benfro	300	300	180	180	4,300	4,400	3,700	3,600
Sir Gaerfyrddin	530	530	320	320	6,800	6,900	5,900	5,900
Abertawe	2,530	2,530	1,130	1,130	10,100	10,400	10,500	10,600
Castell-nedd Port Talbot	280	280	120	120	4,900	5,000	4,600	4,500
Pen-y-bont ar Ogwr	360	360	190	190	4,600	4,700	3,800	3,800
Bro Morgannwg	340	340	200	200	5,400	5,400	4,700	4,700
Caerdydd	5,450	5,450	3,490	3,490	20,600	21,200	22,500	22,700
Rhondda Cynon Taf	820	820	330	330	7,100	7,200	6,900	6,900
Merthyr Tudful	180	180	90	90	1,600	1,600	1,500	1,500
Caerffili	180	180	130	130	4,900	4,900	4,700	4,700
Blaenau Gwent	110	110	70	70	1,900	1,900	1,800	1,800
Torfaen	100	100	70	70	2,800	2,800	2,500	2,500
Sir Fynwy	230	230	150	150	4,700	4,800	4,200	4,100
Casnewydd	1,000	1,000	590	590	6,100	6,100	5,700	5,900


Mae'r tabl yn dangos bod y lefelau uchaf o amcanestyniadau mudo rhyngwladol mewnol ac allanol i'w gweld yng Nghaerdydd, Abertawe, Gwynedd a Chasnewydd.

Ar gyfer mudo mewnol, amcanestynnir y bydd y nifer sydd yn symud mewn yn cynyddu ym mhob awdurdod lleol yn ystod y cyfnod 2018 i 2028. I'r gwrthwyneb, amcanestynnir y bydd y nifer sydd yn symud allan yn lleihau yn y mwyafrif o awdurdodau lleol. Mae hyn yn esbonio'r cynnydd a amcanestynnir mewn mudo mewnol net ar gyfer y mwyafrif o awdurdodau lleol a welir yn Nhabl 1.

## Amrywiolion

Mae Siart 5 yn dangos y gwahaniaethau ym maint poblogaeth Cymru ar gyfer y prif amcanestyniad ac ar gyfer yr amrywiolion poblogaeth uchel ac isel ar gyfer y cyfnod 2018 i 2028. Mae hefyd yn dangos amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn Cymru ar gyfer y cyfnod 2008 i 2018.

### Siart 5: Amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn ac amrywiolion yr amcanestyniadau, 2008 i 2028



- Ar gyfer yr amrywiolyn poblogaeth uchel yn y cyfnod 2018 i 2028, amcanestynnir y bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu 3.4% (o'i gymharu â 2.5% ar gyfer y prif amcanestyniad yn ystod yr un cyfnod)
- Ar gyfer yr amrywiolyn poblogaeth isel yn y cyfnod 2018 i 2028, amcanestynnir y bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu 1.12% ar lefel Cymru

Mae Tabl 3 yn dangos sut mae'r amcanestyniadau poblogaeth yn amrywio rhwng y prif amcanestyniad, yr amrywiolyn poblogaeth isel a'r amrywiolyn poblogaeth uchel yn ystod y cyfnod 2018 i 2028.

**Tabl 3: Amrywiolion yn ôl awdurdod lleol, 2018 a 2028**

	2018	2028		
		Prif	Poblogaeth isel	Poblogaeth uchel
Ynys Môn	70,000	69,700	68,800	70,300
Gwynedd	124,200	127,500	125,900	128,600
Conwy	117,200	120,000	118,600	121,000
Sir Ddinbych	95,300	96,900	95,600	97,800
Sir y Fflint	155,600	158,900	156,900	160,300
Wreccsam	136,100	134,100	132,400	135,300
Powys	132,400	132,800	131,300	134,000
Ceredigion	73,000	70,600	69,800	71,200
Sir Benfro	125,100	127,700	126,200	128,700
Sir Gaerfyrddin	187,600	192,100	189,700	193,800
Abertawe	246,500	254,400	251,200	256,600
Castell-nedd Port Talbot	142,900	146,800	145,000	148,100
Pen-y-bont ar Ogwr	144,900	151,600	149,700	152,900
Bro Morgannwg	132,200	140,000	138,200	141,300
Caerdydd	364,200	375,700	370,700	379,300
Rhondda Cynon Taf	240,100	246,100	243,000	248,300
Merthyr Tudful	60,200	61,700	60,900	62,300
Caerffili	181,000	182,800	180,500	184,400
Blaenau Gwent	69,700	69,200	68,400	69,900
Torfaen	93,000	95,300	94,100	96,200
Sir Fynwy	94,100	97,400	96,200	98,200
Casnewydd	153,300	164,400	162,000	166,000

Ar gyfer y prif amcanestyniad yn y cyfnod 2018 i 2028:

- amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu yn y mwyafrif o awdurdodau lleol
- mae'r cynnydd yn yr amcanestyniadau poblogaeth yn amrywio o 7.2% yng Nghasnewydd i -3.3% yng Ngheredigion

Ar gyfer yr amrywiolyn poblogaeth isel yn y cyfnod 2018 i 2028:

- amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn lleihau mewn chwech awdurdod lleol
- amcanestynnir y bydd y lleihad canrannol mwyaf yng Ngheredigion (i lawr 4.4%), Wreccsam (i lawr 2.7%) a Blaenau Gwent (i lawr 1.9%)
- mae'r cynnydd yn yr amcanestyniadau poblogaeth yn amrywio o 5.7% yng Nghasnewydd i -4.4% yng Ngheredigion
- mae'r cynnydd yn yr amcanestyniadau poblogaeth oddeutu 1-2 pwynt canran yn is nag ar gyfer y prif amcanestyniad ym mhob awdurdod lleol

Ar gyfer yr amrywiolyn poblogaeth uchel yn y cyfnod 2018 i 2028:

- amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn cynyddu ym mhob awdurdod lleol, ac eithrio yng Ngheredigion (i lawr 2.5%) ac yn Wrecsam (i lawr 0.6%)
- mae'r cynnydd yn yr amcanestyniadau poblogaeth yn amrywio o 8.3% yng Nghasnewydd i -2.5% yng Ngheredigion
- mae'r cynnydd yn yr amcanestyniadau poblogaeth oddeutu 1 pwynt canran yn uwch nag ar gyfer y prif amcanestyniad ym mhob awdurdod lleol

## **Cymariaethau ag amcanestyniadau poblogaeth awdurdod lleol sy'n seiliedig ar 2014**

Cyhoeddodd y Prif Ystadegydd [ddiweddariad](#) ym mis Chwefror 2020, gan nodi'r newidiadau methodolegol a wnaed i'r amcanestyniadau is-genedlaethol ers [yr amcanestyniadau is-genedlaethol sy'n seiliedig ar 2014](#). Roedd hyn yn cynnwys:

- newid y rhagdybiaethau ar gyfer mudo mewnol, fel eu bod yn seiliedig ar gyfraddau mudo yn hytrach na niferoedd sefydlog
- cyfyngu cyfanswm amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol, a rhai o'r cydrannau, ar gyfer y 22 awdurdod lleol yng Nghymru ar amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol sy'n seiliedig ar 2018 a gyhoeddwyd gan yr ONS

Cyhoeddwyd [diweddariad](#) arall ym mis Gorffennaf 2020, yn datgan dyddiad cyhoeddi'r amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd awdurdodau lleol diwygiedig, a'r penderfyniad i ddychwelyd i beidio â chyfyngu yr amcanestyniadau is-genedlaethol ar y rhai cenedlaethol.


Yn dilyn trafodaethau â grŵp Amcanestyniadau Is-genedlaethol Cymru (WaSP), gwnaethom y penderfyniad i ddychwelyd, yn rhannol, i'r fethodoleg flaenorol ar gyfer cyfrifo amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol drwy beidio â chyfyngu ar yr amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol. Gwnaed y penderfyniad i gyfyngu i'r amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol yn wreiddiol o ganlyniad i'r amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol anghywir ddangos tuedd wahanol i'r amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol. Fodd bynnag, gan nad yw hyn bellach yn wir, rydym wedi dychwelyd i'r fethodoleg wreiddiol o beidio â chyfyngu er mwyn darparu gwell parhad gydag amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol blaenorol, fel eu bod yn cael eu llywio'n bennaf gan dueddiadau lleol ar gyfer genedigaethau, marwolaethau a mudo.

Fodd bynnag, rydym wedi cadw'r newid a wnaed i'r tybiaethau ar gyfer mudo mewnol fel eu bod yn parhau i fod yn seiliedig ar gyfraddau mudo yn hytrach na niferoedd penodol. Ceir rhagor o wybodaeth yn y diweddariad.

Bydd y gwahaniaethau rhwng amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol sy'n seiliedig ar 2014 a'r rhai sy'n seiliedig ar 2018 yn adlewyrchu nid yn unig y newid mewn tueddiadau demograffig a welwyd yn ystod y cyfnod hwn, ond hefyd y newidiadau yn y fethodoleg rhwng y ddwy set o amcanestyniadau, yn ogystal â'r newid ym mlwyddyn sail yr amcanestyniad.

Bu rhai newidiadau demograffig sylfaenol i'w nodi yn y pedair blynedd rhwng hynny. Ar lefel Cymru, mae'r gyfradd genedigaethau wedi parhau i ostwng (gyda chyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb yn gostwng o 1.78 yn 2014 i 1.63 yn 2018), ac mae gwelliannau mewn disgwyliad oes wedi arafu, tra bod patrymau mudo wedi bod yn amrywio. Mae'r newidiadau hyn wedi arwain at amcangyfrif o 3.14 miliwn ar gyfer poblogaeth Cymru yn 2018, 8,800 (0.3%) yn uwch nag a amcanestynnwyd ar gyfer 2018 gan yr amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol sy'n seiliedig ar 2014.

**Siart 6: Gwahaniaeth canrannol rhwng amcanestyniad poblogaeth 2028 yn ôl yr amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2014 a'r rhai sy'n seiliedig ar 2018, yn ôl awdurdod lleol**



Mae Siart 6 yn dangos bod yr amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer 2028 yn uwch yn yr amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 nag yn yr amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2014 ar gyfer mwyaf yr awdurdodau lleol.

Mae'r amcanestyniadau ar gyfer Bro Morgannwg a Chasnewydd yn 2028 yn uwch yn yr amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 nag yn yr amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2014. Mae'r awdurdodau lleol hyn wedi gweld y cynnydd canrannol mwyaf yn yr amcangyfrifon poblogaeth rhwng 2014 a 2018, felly mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018.

Mae'r amcanestyniad ar gyfer Ceredigion yn 2028 yn 10.8% yn is yn yr amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 nag yn yr amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2014. Ceredigion ydy'r awdurdod lleol sydd wedi gweld y gostyngiad canrannol mwyaf yn ei amcangyfrif poblogaeth rhwng 2014 a 2018. Yn yr amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2014, amcanestynnwyd y byddai'r boblogaeth yng Ngheredigion yn 76,300 yn 2018. Mae hyn yn cymharu â 73,000 yn amcangyfrifon poblogaeth canol-2018, sydd 4.4% yn is.

Mae rhai awdurdodau lleol yr amcanestynnir y bydd eu poblogaethau yn is yn 2028 yn ôl yr amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 o gymharu ag amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2014. Fodd bynnag, amcanestynnir y bydd rhai o'r ardaloedd hyn yn dal i weld cynnydd yn y boblogaeth rhwng 2018 a 2028. Mae Caerdydd yn enghraifft benodol, yr amcanestynnir y bydd ei phoblogaeth yn 6.8% yn is yn 2028 yn ôl yr amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 o gymharu â'r amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2014. Fodd bynnag, amcanestynnir y bydd y boblogaeth yn dal i gynyddu 3.2% rhwng 2018 a 2028 yn ôl yr amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018. Yn yr amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2014, amcanestynnwyd y byddai'r boblogaeth yng Nghaerdydd yn 367,000 yn 2018. Mae hyn yn cymharu â 364,200 yn amcangyfrifon poblogaeth canol-2018, sydd 0.7% yn is.

## Atodiad: Cymariaethau â'r amcanestyniadau poblogaeth awdurdod lleol gwreiddiol sy'n seiliedig ar 2018, amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol ac amcangyfrifon canol-blwyddyn


### Diwygio'r amcanestyniadau poblogaeth awdurdod lleol sy'n seiliedig ar 2018

Fel y soniwyd yn flaenorol, nododd yr ONS bod gwall yn yr amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol sy'n seiliedig ar 2018 ar gyfer Cymru. Achoswyd y gwall gan brosesu mudo rhwng Cymru a Lloegr yn anghywir, gan arwain at amcanestyniad poblogaeth canol-2028 oddeutu 65,000 yn rhy isel yng Nghymru, ac amcanestyniad poblogaeth oddeutu 65,000 yn rhy uchel yn Lloegr.

Mae'r amcanestyniad wedi'i gywiro yn dangos y amcanestynnir y bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu 2.7% erbyn 2028, ac yn cynyddu 3.7% erbyn 2043. Mae hyn yn cymharu â chynnydd o 0.6% a gostyngiad o 0.9% yn ystod yr un cyfnodau yn yr amcanestyniadau anghywir.

Mae Siart 7 yn dangos y gwahaniaeth rhwng yr amcanestyniad poblogaeth cenedlaethol anghywir sy'n seiliedig ar 2018, a'r amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol diwygiedig sy'n seiliedig ar 2018 ar gyfer Cymru am y cyfnod 2018 i 2043, yn ogystal â'r amcangyfrifon canol blwyddyn ers 2008.

### Siart 7: Amcangyfrifon canol-blwyddyn o'r boblogaeth a'r amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol anghywir a diwygiedig ar gyfer Cymru, 2008 i 2043



Erbyn diwedd y cyfnod amcanestyniadau 25-mllynedd yn 2043, mae'r amcanestyniad diwygiedig dros 145,000 yn fwy na'r amcanestyniad anghywir.

Mae Tabl 4 yn dangos y gwahaniaethau rhwng yr amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol gwreiddiol sy'n seiliedig ar 2018 a gyhoeddwyd ar 27 Chwefror 2020, a'r amcanestyniadau diwygiedig sydd wedi eu cyhoeddi fan hyn ar gyfer 2028.



**Tabl 4: Gwahaniaethau rhwng yr amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol gwreiddiol sy'n seiliedig ar 2018 a'r amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol diwygiedig sy'n seiliedig ar 2018, 2028**


	2018	2028 (gwreiddiol)	2028 (wedi cywiro)	Gwahaniaeth canrannol
Ynys Môn	70,000	68,100	69,700	2.3%
Gwynedd	124,200	125,200	127,500	1.8%
Conwy	117,200	116,800	120,000	2.7%
Sir Ddinbych	95,300	93,800	96,900	3.3%
Sir y Fflint	155,600	155,900	158,900	1.9%
Wrecsam	136,100	131,800	134,100	1.8%
Powys	132,400	128,800	132,800	3.2%
Ceredigion	73,000	68,300	70,600	3.3%
Sir Benfro	125,100	124,800	127,700	2.3%
Sir Gaerfyrddin	187,600	187,900	192,100	2.2%
Abertawe	246,500	251,500	254,400	1.1%
Castell-nedd Port Talbot	142,900	144,200	146,800	1.8%
Pen-y-bont ar Ogwr	144,900	149,100	151,600	1.7%
Bro Morgannwg	132,200	137,000	140,000	2.2%
Caerdydd	364,200	371,700	375,700	1.1%
Rhondda Cynon Taf	240,100	243,300	246,100	1.2%
Merthyr Tudful	60,200	60,800	61,700	1.5%
Caerffili	181,000	180,200	182,800	1.4%
Blaenau Gwent	69,700	68,300	69,200	1.4%
Torfaen	93,000	93,900	95,300	1.5%
Sir Fynwy	94,100	94,300	97,400	3.3%
Casnewydd	153,300	161,200	164,400	2.0%

Mae Tabl 4 yn dangos bod yr amcanestyniadau sydd wedi eu cywiro yn uwch na'r amcanestyniadau gwreiddiol ym mhob awdurdod lleol erbyn 2028, gan amrywio o 1.1% yn uwch i 3.3% yn uwch. Mae'r gwahaniaethau mwyaf ar gyfer Ceredigion, Sir Fynwy a Sir Ddinbych (gyda'r amcanestyniadau sydd wedi eu cywiro i gyd yn 3.3% yn uwch na'r amcanestyniadau gwreiddiol). Mae'r gwahaniaethau lleiaf ar gyfer Caerdydd ac Abertawe (y ddau gyda'r amcanestyniadau sydd wedi eu cywiro 1.1% yn uwch na'r amcanestyniadau gwreiddiol), a Rhondda Cynon Taf (1.2% yn uwch).

### **Cymariaethau â'r amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol sy'n seiliedig ar 2018**

Gellir cymharu cyfanswm yr amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol ag amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol yr ONS ar gyfer Cymru. Mae Siart 8 yn dangos y gymhariaeth hon.

## Siart 8: Cymharu cyfanswm yr amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol â'r amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol, 2018 i 2043



Mae Siart 8 yn dangos bod yr amcanestyniad poblogaeth cenedlaethol ar gyfer Cymru tua 6,800 yn uwch na chyfanswm yr amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol erbyn 2028. O 2031 ymlaen, mae cyfanswm yr amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol yn uwch na'r amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol. Erbyn 2043, mae cyfanswm yr amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol tua 53,900 yn uwch na'r amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol.

### Cymariaethau ag amcangyfrifon canol-blwyddyn o'r boblogaeth

Cyhoeddodd yr ONS [amcangyfrifon o'r boblogaeth ar gyfer y Deyrnas Unedig, Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar gyfer canol-2019](#) ar 24 Mehefin 2020. Mae'n bosibl felly cymharu'r amcangyfrif o'r boblogaeth ar gyfer 2019 gydag amcanestyniad poblogaeth 2019 ar gyfer Cymru a phob awdurdod lleol.

Mae Tabl 5 yn dangos y gwahaniaethau rhwng yr amcangyfrifon canol-blwydd o'r boblogaeth a'r amcanestyniadau yn 2019.

**Tabl 5: Cymharu amcangyfrif canol-blwyddyn o'r boblogaeth â'r amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol sy'n seiliedig ar 2018, a'r amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol sy'n seiliedig ar 2018**

	Amcangyfrif canol-2019	Amcanestyniad poblogaeth 2019	Gwahaniaeth
Ynys Môn	70,000	69,900	-0.2%
Gwynedd	124,600	124,400	-0.1%
Conwy	117,200	117,400	0.2%
Sir Ddinbych	95,700	95,500	-0.2%
Sir y Fflint	156,100	156,000	-0.1%
Wrecsam	136,000	136,000	0.0%
Powys	132,400	132,400	0.0%
Ceredigion	72,700	72,400	-0.5%
Sir Benfro	125,800	125,300	-0.4%
Sir Gaerfyrddin	188,800	188,000	-0.4%
Abertawe	247,000	247,200	0.1%
Castell-nedd Port Talbot	143,300	143,200	-0.1%
Pen-y-bont ar Ogwr	147,000	145,700	-0.9%
Bro Morgannwg	133,600	133,000	-0.4%
Caerdydd	366,900	365,300	-0.4%
Rhondda Cynon Taf	241,300	240,800	-0.2%
Merthyr Tudful	60,300	60,400	0.1%
Caerffili	181,100	181,300	0.1%
Blaenau Gwent	69,900	69,700	-0.3%
Torfaen	94,000	93,300	-0.7%
Sir Fynwy	94,600	94,400	-0.2%
Casnewydd	154,700	154,500	-0.1%
<b>Cymru</b>	<b>3,152,900</b>	<b>3,151,800</b>	<b>-0.03%</b>

Nodyn: mae'r amcanestyniad poblogaeth ar gyfer Cymru yn Nhabl 5 yn dod o amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol sy'n seiliedig ar 2018 yr ONS, ac nid cyfanswm yr amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol sy'n seiliedig ar 2018.

Mae Tabl 5 yn dangos bod yr amcanestyniad poblogaeth cenedlaethol ar gyfer 2019 yn 0.03% yn is na'r amcangyfrif canol-blwyddyn o'r boblogaeth ar gyfer Cymru yn yr un flwyddyn (tua 1,100 yn is). Mae cyfanswm yr amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol ar gyfer 2019 0.2% yn is na'r amcangyfrif canol-blwyddyn o'r boblogaeth (tua 6,700 yn is).

Mae'r gwahaniaethau mwyaf ym mlwyddyn cyntaf yr amcanestyniadau i'w gweld ym Mhen-y-bont ar Ogwr (gyda'r amcanestyniad 0.9% yn is na'r amcangyfrif canol-blwyddyn o'r boblogaeth), Torfaen (0.7% yn is) a Cheredigion (0.5% yn is).

Gellir esbonio'r gwahaniaethau yn bennaf gan yr elfen mudo mewnol, gyda'r mudo mewnol net gwirioneddol yn 2018-2019 yn uwch na'r hyn a amcanestynnwyd ar gyfer y mwyafrif o awdurdodau lleol. Ar lefel Cymru, roedd y mudo mewnol net yn uwch yn 2018-2019 nag a fu ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd y seilir yr amcanestyniadau hyn arnynt (2013-2018), ac eithrio yn 2017-2018. Gall hyn esbonio ychydig o'r rheswm pam bod yr amcanestyniad ar gyfer 2019 yn is na'r amcangyfrif canol-blwyddyn ar gyfer 2019.

Mae amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol sy'n seiliedig ar 2018 ar gyfer Cymru wedi'u cyfyngu ar [amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol sy'n seiliedig ar 2018](#) a gyhoeddwyd gan yr ONS.

# Gwybodaeth allweddol am ansawdd

## Perthnasedd

Mae ystadegau poblogaeth a mudo yn bwysig ar gyfer datblygu polisïau, cynllunio, a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae galw mawr am ystadegau poblogaeth a mudo ar gyfer sefyllfaoedd amrywiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cynllunio gwasanaethau ac amcangyfrif anghenion y dyfodol ar lefel genedlaethol a lleol, (er enghraifft, ysgolion, iechyd, a gwasanaethau cymdeithasol) gan gynnwys paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol
- cyfrannu at setliad refeniw Cyllid Llywodraeth Leol
- datblygu polisïau
- cyngor i Weinidogion
- cyfrannu at ddadleuon yn y Senedd a thu hwnt
- cyfrifo ystadegau pellach (er enghraifft, amcanestyniadau aelwydydd)
- enwaduron mewn cyfraddau (er enghraifft, cyfraddau geni a chyfraddau marwolaethau)
- cynhyrchu pwysolion mewn rhai arolygon sampl
- cymariaethau, a meincnodi a phroffilio daearyddol
- dadansoddiad carfannau poblogaeth a thueddiadau mudo
- cefnogi asesiadau lles sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae amrywiaeth o ddefnyddwyr yn gwneud defnydd o ddata poblogaeth, o lywodraeth genedlaethol a lleol, elusennau a sefydliadau yn y sector gwirfoddol, adrannau eraill y llywodraeth, myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion, dinasyddion unigol, a chwmnïau preifat. Mae yna gryn ddiddordeb mewn amcanestyniadau ar lefel awdurdod lleol yn arbennig. Mae angen i'r rhai sy'n cynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol a helpu i lunio polisïau cynaliadwy ystyried y boblogaeth wedi'i dadansoddi yn ôl oedran a rhyw. Gall amcanestyniadau poblogaeth dynnu sylw at dueddiadau sy'n llunio'r cyd-destun ar gyfer datblygu polisi yn y dyfodol.

Daeth Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 i rym ym mis Gorffennaf 2015. Un o elfennau allweddol y Ddeddf yw galluogi awdurdodau cynllunio lleol i ddod at ei gilydd a pharatoi Cynllun Datblygu Strategol sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau awdurdodau lleol, gan gwmpasu ardal ddaearyddol ehangach ac ymdrin â mwy na materion lleol yn unig. Bydd y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), pan ddaw i rym, yn disodli'r strwythur llywodraethu ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu strategol.

Bydd tystiolaeth i ategu'r gwaith o baratoi cynllun yn cynnwys ystadegau demograffig ac amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd y bydd angen eu hystyried mewn cyd-destun strategol. Bydd fersiynau newydd o amcanestyniadau yn y dyfodol yn cyfrannu at lunio cynlluniau strategol.

Mae'n rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol sydd â Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) mabwysiedig baratoi Adroddiad Monitro Blyneddol (AMB) sy'n mesur sut mae polisiâu wedi perfformio a pha gamau a allai fod eu hangen i'w cywiro. Mae'r adroddiadau hyn yn hollbwysig o ran sicrhau bod y CDLI yn parhau'n gyfredol. Gall y cynnydd a ddangosir yn yr adroddiadau effeithio ar lefelau a dosbarthiad poblogaeth, proffiliau demograffig, a phrisiau tai yn y dyfodol. Bydd y canlyniadau hyn a'u perthynas ag amcanion allweddol y cynllun yn ffurfio rhan o'r AMB.

## **Cywirdeb**

Mae amcanestyniadau poblogaeth yn rhoi amcangyfrifon o faint poblogaeth y dyfodol, ac maent wedi'u seilio ar dybiaethau ynghylch genedigaethau, marwolaethau a mudo. Mae'r tybiaethau'n seiliedig ar dueddiadau cynt. Yn gyffredinol mae'r tybiaethau'n seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol. Nid yw amcanestyniadau a wneir yn y modd hwn yn caniatáu ar gyfer effeithiau polisiâu llywodraeth leol neu ganolog ar lefelau, dosbarthiad a newid yn y boblogaeth yn y dyfodol.

Mae gan amcanestyniadau poblogaeth eu cyfyngiadau. Nid yw'r amcanestyniadau poblogaeth hyn ar gyfer awdurdodau lleol yn rhagolygon seiliedig ar bolisi; maent yn dangos yr hyn y disgwylir iddo ddigwydd os bydd y tueddiadau y maent wedi'u seilio arnynt yn parhau.

Gan fod y broses o newid demograffig yn gronnol, mae amcanestyniadau yn dod yn gynyddol ansicr po bellaf y maent yn cael eu dwyn ymlaen. Mae newid demograffig yn effeithio ar rai poblogaethau'n gyflymach ac i fwy o raddau nag eraill. Oherwydd maint llifau mudo amcangyfrifedig, i rai awdurdodau lleol mae tybiaethau mudo'n fwy allweddol na thybiaethau ffrwythlondeb a marwolaethau. Felly, gall tybiaethau mudo gael effaith hirdymor sylweddol ar rai ardaloedd.

Mae rhagdybiaethau'n ymwneud â chyfraddau genedigaethau a marwolaethau yn seiliedig ar lefelau hanesyddol marwolaethau a ffrwythlondeb a'r ffordd maent yn rhyngweithio â maint y boblogaeth ym mhob oedran. Maent yn amodol ar amrywiaeth (er enghraifft, drwy newidiadau mewn tueddiadau ffrwythlondeb neu gynnydd mewn disgwyliad oes) ond nid yw newidiadau o'r fath yn rhai tymor byr fel arfer. Gall mudo ryngweithio â'r tueddiadau hyn hefyd, ond mae'r tybiaethau mudo eu hunain yn agored i amrywiadau tymor byr yn seiliedig ar amgylchiadau economaidd neu gymdeithasol. Felly mae pennu cyfraddau mudo ar gyfer y dyfodol gan ddefnyddio'r cyfraddau ar gyfer y pum mlynedd flaenorol yn golygu y gall yr amcanestyniadau fod yn agored i anwadalrwydd tymor byr o ran cyfraddau mudo. Gall hyn fod yn arbennig o wir ar gyfer amcanestyniadau cyfredol, gan fod y rhagdybiaethau wedi'u seilio ar gyfnod a oedd yn cynnwys newidiadau eang mewn lefelau mudo a'r refferendwm ar adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae ffactorau a all ddylanwadu ar yr amcanestyniadau a thair prif elfen newid yn y boblogaeth: newidiadau yn yr economi; newidiadau yn ymddygiad unigolion, teuluoedd ac aelwydydd; a digwyddiadau y tu allan i'r DU. Er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau awdurdod lleol cynhyrchwyd amcanestyniadau amrywiol ochr yn ochr â'r prif amcanestyniad poblogaeth. Mae'r amcanestyniadau amrywiol hyn yn dangos sut y gallai amrywiadau posibl yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo effeithio ar yr amcanestyniadau.

## Amrywiolion

Er mwyn dangos yr ansicrwydd cynhenid sy'n gysylltiedig â newid demograffig yn y dyfodol wrth gynhyrchu set o amcanestyniadau mae'n bosibl cynhyrchu prif amcanestyniad yn seiliedig ar set o dybiaethau, a nifer o amrywiolion yn seiliedig ar ragdybiaethau amgen.

Ar gyfer amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol sy'n seiliedig ar 2018, mae dau amrywiolyn wedi cael eu cynhyrchu (ynghyd â'r prif amcanestyniad) ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae'r amrywiolion yn dangos sut gall amrywiadau posibl yn y tybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo effeithio ar yr amcanestyniadau, a sut mae maint yr effaith hon yn cynyddu po bellaf i gyfnod yr amcanestyniad y cymerir y canlyniadau. Y ddau amrywiolyn a ddefnyddir yw:

- amrywiolyn 'poblogaeth uchel' (sy'n seiliedig ar ragdybiaethau ffrwythlondeb, disgwyliad oes a mudo uchel)
- amrywiolyn 'poblogaeth isel' (sy'n seiliedig ar ragdybiaethau ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo isel)

Mae'r rhain yn mynegi'r ansicrwydd ynghylch amcanestyniadau, ond nid ydynt yn cynrychioli uchafswm neu isafswm o dueddiadau demograffig yn y dyfodol.

Rydym hefyd yn cynllunio bod amrywiolion sy'n seiliedig ar dybiaethau mudo eraill ar gael yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys:

- amrywiolyn yn seiliedig ar ddim mudo (neu newid naturiol yn unig), i ddangos poblogaeth amcanestynedig pob awdurdod lleol pe na bai unrhyw fudo i mewn nac allan yn y dyfodol
- amrywiolyn yn seiliedig ar batrymau mudo 10 mlynedd (h.y. defnyddio 10 mlynedd o ddata ar gyfer mudo rhyngwladol a mudo mewnol, yn hytrach na 5 mlynedd o ddata), sydd yn gallu ymdrin â chyfnod pum-mlynedd anarferol, fodd bynnag mae peryg hefyd o leihau effaith newidiadau mwy systemig sydd wedi digwydd dros y 10 mlynedd

## Methodoleg

Mae amcanestyniadau poblogaeth yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn (fel ar 30 Mehefin bob blwyddyn). Caiff amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn ar gyfer Cymru a Lloegr eu cynhyrchu gan yr ONS. Er mwyn cynhyrchu amcanestyniadau awdurdod lleol mae'r amcangyfrifon poblogaeth yn cael eu cyfuno â thybiaethau ynghylch genedigaethau, marwolaethau a mudo. Mae'r tybiaethau hyn yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol.

O ran mudo, defnyddir diffiniad y Cenhedloedd Unedig o fudwr rhyngwladol; hynny yw, rhai sy'n newid eu gwlad breswyl am gyfnod o 12 mis o leiaf. Nid yw mudwyr tymor byr (er enghraifft, gweithwyr mudol o wledydd Dwyrain Ewrop) yn cael eu cyfrif yn yr amcangyfrifon poblogaeth.

Mae'r amcanestyniadau awdurdod lleol hyn yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol-2018 ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae'r data sylfaenol a ddefnyddir i wneud y cyfrifiadau yn cael ei gynhyrchu gan yr ONS ar gyfer y cyfnod amcanestyniadau i gyd, sef pum mlynedd ar hugain fel arfer. Er mwyn cynhyrchu amcanestyniadau poblogaeth, mae angen ffurfio tybiaethau i ragamcanu lefelau ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo yn y dyfodol ar gyfer pob awdurdod lleol.

Mae amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol yn cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio dull demograffig sefydledig, sef y dull cydran carfan. Hynny yw:

- cymryd amcangyfrif poblogaeth y flwyddyn ddiweddaraf
- tynnu grwpiau poblogaeth arbennig o'r amcangyfrif
- heneiddio pob unigolyn un flwyddyn
- ychwanegu genedigaethau a thynnu marwolaethau
- caniatáu ar gyfer mudo i mewn ac allfudo
- ychwanegu yn ôl yn y grwpiau poblogaeth arbennig

Yn gyffredinol, mae'r tybiaethau'n seiliedig ar dueddiadau yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ac mae'r amcanestyniadau yn dangos beth allai ddigwydd pe bai'r tueddiadau hyn yn parhau.

Mae grwpiau poblogaeth arbennig yn cynnwys nifer y carcharorion a'r lluoedd arfog ym mhob awdurdod lleol. O ganol-2011 ymlaen, roedd carcharorion yn cael eu hystyried fel arfer yn preswyllo mewn sefydliad os oeddent yn bwrw dedfryd o chwe mis neu fwy.

Datblygwyd y fethodoleg ar gyfer yr amcanestyniadau hyn mewn cydweithrediad agos ag awdurdodau lleol a defnyddwyr allweddol yng Nghymru drwy grŵp Amcanestyniadau Is-genedlaethol Cymru (WaSP). Mae'r grŵp hwn wedi cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y broses o baratoi'r amcanestyniadau ac wedi bod yn fforwm ar gyfer trafodaeth dechnegol ar y fethodoleg a'r data sylfaen a ddefnyddir. Mae aelodau'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol ac eraill sydd â gwybodaeth a phrofiad o ddata demograffig ac amcanestyniadau poblogaeth.

Mae diweddariadau rheolaidd wedi cael eu darparu hefyd mewn cyfarfodydd llawn o Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru (PCYC).

Bydd canllawiau ar y fethodoleg fanwl a ddefnyddiwyd i greu'r amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol ar gyfer Cymru yn cael eu cyhoeddi mewn adroddiad technegol maes o law, ochr yn ochr â'r cyhoeddiad amcanestyniadau parciau cenedlaethol. Bydd yn disgrifio sut mae amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol yn cael eu cynhyrchu, ac yn disgrifio'n fanwl y fethodoleg a ddefnyddir i ddatblygu'r tybiaethau ar ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo.

### **Amseroldeb a phrydlondeb**

Mae amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol fel arfer yn cael eu cyfrif a'u cyhoeddi bob tair blynedd, i ddiwallu anghenion defnyddwyr yng Nghymru.

[Amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2014](#) oedd y set ddiwethaf o amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2016.

Cyhoeddodd Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru mewn [blog](#) ym mis Hydref 2019 y byddai amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd is-genedlaethol sy'n seiliedig ar 2017 yn cael eu gohirio. Cyhoeddwyd [erthygl ystadegol](#) hefyd, yn amlinellu'r heriau a wynebwyd wrth gyfrifo amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol sy'n seiliedig ar 2017 mewn rhagor o fanylder, ac yn cyhoeddi diweddarau'r amcanestyniadau awdurdodau lleol i fod yn seiliedig ar 2018.



Cafodd yr [amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol sy'n seiliedig ar 2018](#) eu cyhoeddi'n wreiddiol ar 27 Chwefror 2020, a'u diwygio wedi hynny ar 4 Awst 2020.

### **Amser cyhoeddi arfaethedig yr amcanestyniadau nesaf**

Mae'r ONS fel arfer yn cyhoeddi amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol bob dwy flynedd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd maent yn bwriadu peidio â chyhoeddi amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2020, a fyddai'n cael eu cyhoeddi fel rheol yn ystod hydref 2021. Mae hyn oherwydd bod disgwyl cyhoeddi canlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021 yn ystod gwanwyn 2022. Maent felly yn cynnig bod yr amcanestyniadau nesaf yn seiliedig ar amcangyfrifon canol-blwyddyn 2021, a fyddai'n eu galluogi i ddefnyddio'r boblogaeth o Gyfrifiad 2021.

Rydym yn cynnig felly y bydd yr amcanestyniadau is-genedlaethol nesaf ar gyfer Cymru hefyd yn seiliedig ar 2021. Rydym ni fel arfer yn cyhoeddi amcanestyniadau is-genedlaethol unwaith bob tair blynedd, felly byddai'r amcanestyniadau nesaf ar gyfer Cymru yn seiliedig ar 2021.

Byddem yn croesawu unrhyw adborth ar y cynnig hwn trwy gysylltu â [ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru](mailto:ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru).

### **Hygyrchedd ac eglurder**

Cyhoeddir manylion y datganiad ystadegol hwn ymlaen llaw ac yna caiff ei gyhoeddi ar dudalennau [Ystadegau ac Ymchwil](#) gwefan Llywodraeth Cymru. Mae tablau manylach sydd yn cyd-fynd ar gael ar [StatsCymru](#), gwasanaeth rhad ac am ddim i'w ddefnyddio sy'n caniatáu i ymwelwyr weld, trin, creu a lawrlwytho data.

### **Cymaroldeb a chydlyniaeth**

Mae'r ONS yn cyhoeddi [amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol ar gyfer Lloegr](#). Cafodd amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol sy'n seiliedig ar 2018 eu cyhoeddi ddydd Mawrth 24 Mawrth 2020.

Mae Cofnodion Cenedlaethol yr Alban yn cyhoeddi [amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer ardaloedd yn yr Alban](#). Cafodd amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol sy'n seiliedig ar 2018 hefyd eu cyhoeddi ddydd Mawrth 24 Mawrth 2020.

Mae Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi [amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer ardaloedd o fewn Gogledd Iwerddon](#). Cafodd amcanestyniadau is-genedlaethol sy'n seiliedig ar 2018 eu cyhoeddi ddydd Iau 30 Ebrill 2020.

Mae [canllawiau](#) ar gael i ddefnyddwyr er mwyn cymharu ffynonellau data a dulliau ar gyfer amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol ledled y DU.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig](#) wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ac sy'n golygu eu bod yn cydymffurfio â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#).

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu fod yr ystadegau swyddogol yn cwrdd â'r safonau uchaf o ddibynadwyaeth, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Ceir eu dyfarnu fel statws Ystadegau Gwladol yn dilyn asesiad gan fraich rheoli Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Mae'r Awdurdod yn ystyried os ydy'r ystadegau yn cwrdd â'r safonau uchaf o gydymffurfiaid â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ychwanegu i benderfyniadau a dadlau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw i gynnal cydymffurfiaid â'r safonau a ddisgwylir o Ystadegau Gwladol. Os ydym yn pryderu os yw'r ystadegau yma yn dal i gwrdd â'r safonau priodol, byddwn yn trafod hyn yn brydlon gyda'r Awdurdod. Gall statws Ystadegau Gwladol gael ei diddymu ar unrhyw bryd pan mae'r safonau uchaf heb eu cynnal, a'i ddyfarnu unwaith eto pan mae'r safonau yn cael eu hadfer.

Cadarnhawyd y statws parhaus o'r ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol ym mis Ionawr 2020 yn dilyn [gwiriad cydymffurfiaeth](#) gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau. Cynhaliwyd yr [asesiad llawn](#) diweddaraf o'r ystadegau hyn yn erbyn y Cod Ymarfer yn 2015.

Ers yr adolygiad diweddaraf gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, rydym wedi parhau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, ac rydym wedi gwneud y gwelliannau canlynol:

- gweithio gyda grŵp Amcanestyniadau Is-genedlaethol Cymru (WaSP) i wneud a chytuno ar welliannau i'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo'r amcanestyniadau a'u hamrywiolion
- gwella sut y caiff yr ystadegau hyn eu cyflwyno, gan gynnwys cyhoeddi ar ffurf html i ddiwallu anghenion defnyddwyr
- gwella dibynadwyedd trwy leihau mynediad cyn cyhoeddi

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwysu at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn [adroddiad Llesiant Cymru](#).

Gwybodaeth bellach am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrdau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## **Manylion pellach**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn: <https://llyw.cymru/amcanestyniadau-genedlaethol-or-boblogaeth>

## **Diweddariad nesaf**

I'w gadarnhau

## **Hoffem gael eich adborth**

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch e-bost at [ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru](mailto:ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru).

## **Trwydded Llywodraeth Agored**

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y [Drwydded Llywodraeth Agored v3.0](#) oni nodir yn wahanol.

